

# **FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM**

## **CYLCH GWAITH**

### **Teitl**

1. Bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei adnabod fel Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam.

### **Rolau a Chyfrifoldebau**

2. Swyddogaeth Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yw darparu cyngor i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'i olynnyddion, ac eraill fel bo'n briodol. Bydd yn cynghori ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i diroedd yn yr ardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal mewn ffyrdd sy'n ystyried rheoli tir a buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgiadol.
3. Bydd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yn cyflawni'r rôl yma trwy gynghori ar faterion sy'n berthnasol yn lleol, yn cynnwys:
  - (a) cefnogi gweithredu'r hawl i fynediad i gefn gwlad agored;
  - (b) gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy;
  - (c) datblygu strategaethau sy'n cwmpasu pob buddiant a diddordeb ar dir mynediad agored; a
  - (ch) datblygu strategaethau mynediad a hamdden sy'n addas ar gyfer ystod eang o bobl yn y cefn gwlad sy'n weddill.
4. Bydd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yn gweithio i:
  - (a) datblygu dull adeiladol a chynhwysol o wella materion mynediad i gefn gwlad;
  - (b) parchu amgylchiadau lleol a gwahanol fuddiannau tra'n gweithredu yn unol â chanllawiau cenedlaethol;
  - (c) darparu cyngor ar faterion o egwyddor ac arfer dda sy'n cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol;
  - (ch) cymryd rhan mewn trafodaethau adeiladol a cheisio cael consensws lle bo'n bosibl; a
  - (d) lle nad yw'n bosibl cyrraedd consensws, gwneud natur y safbwyntiau gwahanol yn glir ac awgrymu sut y gellir datrys y gwahaniaeth barn.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau uchod bydd y Fforwm yn ystyried:

- (a) anghenion rheoli tir;
- (b) ei bod yn ddymunol cadw harddwch naturiol yr ardal, yn cynnwys y fflora, ffawna a'r nodweddion daearegol a ffisiolegol;
- (c) canllawiau a gyhoeddir o dro i dro gan Lywodraeth Cymru; a
- (ch) cydgysylltu priodol ag awdurdodau lleol a fforymau mynediad lleol cyfagos a phartïon eraill â diddordeb.

## **Aelodaeth**

5. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- (a) Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd wedi'u hethol yn unol â rheoliadau Fforwm Mynediad Lleol; a
- (b) Isafswm o 10 ac uchafswm o 20 aelod arall. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys cynrychiolaeth gytbwys o (i) defnyddwyr mynediad hamdden a (ii) perchnogion a meddiannwyr tir – ynghyd â chynrychiolaeth o fuddiannau eraill sy'n berthnasol i'r ardal.

6. Bydd yr aelodaeth yn:

- (a) cytbwys i osgoi bod unrhyw un grŵp buddiant neu glymblaid o ddiddordebau tebyg yn tra-arglwyddiaethu;
- (b) cynrychioli trawstoriad o fuddiannau yn yr ardal; ac
- (c) yn byw neu'n gweithio yn yr ardal, neu'n meddu ar wybodaeth gadarn am yr ardal.

7. Disgwylir i'r aelodau:

- (a) cefnogi diben cadarnhaol y fforwm;
- (b) glynu at yr adrannau sy'n ymwneud â Fforymau Mynediad Lleol yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a'r rheoliadau, a'r Cylch Gwaith hwn;
- (c) dangos ymrwymiad i gyflawni amcanion y Fforwm Mynediad Lleol trwy weithio'n adeiladol ag aelodau eraill;
- (ch) medru rhoi'r amser angenrheidiol i fynychu cyfarfodydd ac i rwydweithio y tu allan i gyfarfodydd;
- (d) meddu ar brofiad digonol o fynediad i gefn gwlad yn yr ardal leol i fedru gwneud cyfraniad gwybodus ac adeiladol i wella'r ddarpariaeth mynediad; a

(dd) medru gweithio ag amrediad eang o grwpiau buddiant.

## Ysgrifenyddiaeth

- 8 Bydd gan Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam Ysgrifennydd a benodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a fydd yn gyfrifol am:
- (a) rhoi cymorth a chefnogaeth i Gadeirydd y Fforwm;
  - (b) sicrhau bod y Fforwm wedi ei sefydlu ac yn cael ei gynnal yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoliadau Fforymau Mynediad Lleol a'r Cylch Gwaith hwn;
  - (c) rheoli unrhyw adnoddau a ddyrennir ar gyfer ei waith;
  - (ch) trefnu a hyrwyddo cyfarfodydd, yn cynnwys trefnu bod papurau a gwybodaeth yn cyrraedd aelodau'r Fforwm a'r cyhoedd;
  - (d) cynhyrchu cofnodion cyfarfodydd y Fforwm.

## Cyfarfodydd

- 9 Cynhelir cyfarfodydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac yn amlach fel a phan fo angen. Bydd y Fforwm a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cytuno ar hyn.
- 10 Cytunir ar agendâu'r cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Ysgrifennydd – ond caiff unrhyw aelod awgrymu eitemau agenda i'w hystyried.
- 11 Hysbysebir am y cyfarfodydd ymlaen llaw ac fe'u cynhelir yn gyhoeddus.
- 12 Gall y Gadeirydd, yn dilyn cais gan aelod neu aelodau, benderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem(au) penodol oherwydd rhesymau preifatrwydd personol neu gyfrinachedd masnachol.
- 13 Bydd agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Fforwm a'i is-bwyllgorau ar gael i'r cyhoedd.
- 14 Bydd y Cadeirydd yn gwahodd arsylwyr/cynghorwyr i'r cyfarfod, pan fo'n briodol.
- 15 Gall arsylwyr/cynghorwyr gyfrannu at y trafodaethau yn unol â doethineb a disgresiwn y Cadeirydd.
- 16 Bydd gan un cynrychiolydd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r corff dilynol a Llywodraeth Cymru ac unrhyw swyddog o'r awdurdod penodol yn meddu ar statws arsylwr yn awtomatig.
- 17 Bydd pwyllgorau Fforwm Mynediad Lleol yn cael eu sefydlu gan y Cadeirydd, ar ôl cael cytundeb yr aelodau, os oes angen.

18 Cytunir ar gadeiryddiaeth, aelodaeth a chylch gwaith y pwyllgor gan y Cadeirydd a'r aelodau.